



Cyngor Bwrdeisdref Sirol

Blaenau Gwent

County Borough Council

CYNLLUN CYHOEDDI RHYDDID GWYBODAETH



a better place to live and work

Rhagfyr 2008

DEDDF RHYDDID GWYBODAETH 2000

Cynllun Cyhoeddi Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent,
Y Ganolfan Ddinesig, Glyn Ebwy NP23 6XB

Cyhoeddwyd yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

CYFLWYNIAD

Dyma Gynllun Cyhoeddiadau Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent yn unol â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'n ofyniad gan y Ddeddf fod pob awdurdod cyhoeddus - sy'n cynnwys y Cyngor hwn - yn mabwysiadu ac yn cynnal cynllun cyhoeddi sy'n nodi'r holl wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei dal a'i chyhoeddi fel arfer. Mae Cynllun Blaenau Gwent yn seiliedig ar yr hyn a gyhoeddir eisoes ar sail reolaidd ac yn rhoi gwybodaeth am le medrir cael yr wybodaeth.

Diben y Cynllun yw gwneud yn sicr fod swm sylweddol a chynyddol o wybodaeth ar gael yn rhwydd heb fod angen i unigolion wneud cais penodol ac annog diwylliant o agoredrwydd o fewn llywodraeth leol.

GWYBODAETH AM FLAENAU GWENT

Mae Blaenau Gwent yn awdurdod unedol yn gwasanaethu cymuned o tua 69,000 o bobl. Mae'n gweithredu dan fodel Pwyllgor Gwaith ac Arweinydd o wneud penderfyniadau democrataidd.

Mae'r Cyngor ei hunan yn cwrdd bob chwe wythnos. Mae'n gyfrifol am wneud yr holl benderfyniadau strategol yn cynnwys cymeradwyo'r gyllideb.

Mae gan y Pwyllgor Gwaith gyfrifoldebau helaeth am weithredu'r polisïau a gytunwyd gan y Cyngor. Mae'n cwrdd bob tair wythnos; mae'n cynnwys naw aelod o'r Cyngor, sy'n cynnwys Arweinydd, ac wyth Aelod gyda phortffolios unigol. Mae'n gweithredu nifer fawr o swyddogaethau, nad ydynt wedi eu neilltuo fel arall i'r Cyngor Bwrdeisdref Sirol ei hunan. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn trin y rhan fwyaf o faterion yn cyfeirio at brif wasanaethau'r Cyngor yn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai, Addysg, Rheolaeth Gwastraff, Gwasanaethau Amgylcheddol, Adfywio, Cynllunio Strategol a Phrifyrdd a Chludiant.

Mae pum Pwyllgor Craffu sy'n cefnogi gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor yn ei gyfarwydd. Maent yn caniatáu i rai heb fod yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith gael mwy o lais ym musnes y Cyngor drwy gynnal ymholiadau ar faterion o gonsyrn lleol a pherfformiad cyffredinol y Cyngor yn y ffordd y mae'n cyflwyno gwasanaethau. Mae'r rhain yn arwain at adroddiadau ac argymhellion, sy'n cynghori'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor yn ei gyfarwydd ar ei bolisiau, cyllideb a chyflenwi gwasanaethau. Mae Pwyllgorau Craffu hefyd yn monitro penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith.

Mae gan y Cyngor Bwyllgor Cynllunio a Phwyllgor Trwyddedu ar gyfer materion rheoli datblygu a materion trwyddedu cyffredinol.

Mae'r Pwyllgor Safonau yn gyfrifol am hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr, cynorthwyo'r Cynghorwyr i arsylwi Cod Ymddygiad Aelodau, cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad Aelodau a monitro ei weithrediad.

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau yn y Ganolfan Ddinesig, Glyn Ebwy fel arfer. Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd ar agor i'r cyhoedd yn unol â'r Rheolau Mynediad i Wybodaeth a gynhwysir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

SAIL Y CYNLLUN

- Cyhoeddi neu wneud ar gael mewn modd arall fel mater o drefn, wybodaeth, yn cynnwys gwybodaeth amgylcheddol, a gaiff ei dal gan yr Awdurdod ac sy'n dod o fewn y dosbarthiadau islaw.
- Nodi'r wybodaeth a gedwir gan yr Awdurdod ac sy'n dod o fewn y dosbarthiadau islaw.
- Cyhoeddi gwybodaeth neu ei gwneud ar gael mewn modd arall fel mater o drefn yn unol â'r datganiadau a gynhwysir o fewn y cynllun hwn.
- Cynhyrchu a chyhoeddi'r dulliau ar gyfer gwneud y wybodaeth benodol ar gael fel mater o drefn fel y gall aelodau o'r cyhoedd ei hadnabod a'i chyrchu'n rhwydd.
- Adolygu a diweddarau ar sail reolaidd yr wybodaeth y mae'r Awdurdod yn ei gwneud ar gael dan y cynllun hwn.
- Cynhyrchu rhestr o unrhyw ffioedd a godir am fynediad i'r wybodaeth a wneir ar gael.
- Gwneud y cynllun cyhoeddi hwn ar gael i'r cyhoedd.

DOSBARTHIAU GWYBODAETH

Pwy ydym a'r hyn a wnawn

Gwybodaeth sefydliadol, lleoliadau a chysylltiadau, llywodraethu cyfansoddiadol a chyfreithiol - e. e. Cyfansoddiad a Rheolau Sefydlog, gwybodaeth Cynghorwyr a manylion cyswllt.

Yr hyn a wariwn a sut y'i gwariwn

Gwybodaeth ariannol yn cyfeirio at incwm a gwariant rhagamcanol a gwirioneddol, tendro, caffaeliad a chontractau e.e. Adroddiad Blynnyddol a Datganiad Cyfrifon, Rhaglen Cyfalaf ac ati.

Ein blaenoriaethau a sut ydym yn gwneud

Strategaeth a gwybodaeth perfformiad, cynlluniau, asesiadau, arolygiadau ac adolygiadau e.e. Cynllun Cymunedol, Cynllun Addysg Sengl ac ati.

Sut y gwnawn benderfyniadau

Cynigion polisi a phenderfyniadau. Prosesau gwneud penderfyniad, meini prawf a gweithdrefnau manwl, ymgynghoriadau e.e. Agendâu a Chofnodion ac ati.

Ein polisiâu a gweithdrefnau

Protocolau ysgrifenedig cyfredol ar gyfer cyflenwi ein swyddogaethau a chyfrifoldebau e.e. Cyfansoddiad Cynghorau ac ati.

Rhestri a chofrestri

Gwybodaeth a gedwir mewn cofrestri sydd eu hangen yn gyfreithiol a rhestri a chofrestri eraill yn cyfeirio at swyddogaethau'r Awdurdod e.e. Cofrestr Pridiannau Tir, Cofrestr Cynllunio, Cofrestr o ddiddordebau ariannol a diddordebau eraill Aelodau.

Y gwasanaethau a gynigiwn

Cyngor ac arweiniad, llyfrynnau a thaflenni, trafodion a datganiadau i'r wasg. Disgrifiad o'r gwasanaethau a gynigir e.e. A-Y o wasanaethau megis Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau, Llyfrgelloedd ac ati.

Ni fydd y dosbarthiadau gwybodaeth fel arfer yn cynnwys:

- Gwybodaeth y mae'r gyfraith yn atal ei datgelu, neu sydd wedi heithrio dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu a ystyrir yn gywir ei bod wedi'i diogelu rhag datgeliad.
- Gwybodaeth ar ffurf ddrafft.
- Gwybodaeth nad yw mwyach ar gael yn rhwydd gan ei bod wedi'i chynnwys mewn ffeiliau a ddodwyd mewn storfa archifau, y gwaredwyd â hwy yn unol â Pholisi Cadw a Gwaredu y Cyngor, neu sy'n anodd ei chyrchu am resymau tebyg.

NID YDYM YN DARPARU

Mae llawer iawn o'r wybodaeth a ddaliwn yn bersonol a phreifat i unigolion.

Nid yw'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn delio â hyn. Y ddeddfwriaeth berthnasol yw'r Ddeddf Diogelu Data. Mae gan unigolion eisoes hawl i gael mynediad i wybodaeth amdanynt eu hunain dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Yng nghyswllt awdurdodau cyhoeddus, mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ymestyn yr hawl hwn i roi mynediad i'r cyhoedd i'r holl fathau o wybodaeth a ddalir. Nid yw'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gwneud gwybodaeth breifat a chyfrinachol am drefniadau preifat Treth Cyngor, Budd-daliadau, tenantiaeth pobl ac ati yn gyhoeddus. Fodd bynnag, mae gan yr unigolyn dan sylw fynediad i'r wybodaeth honno dan y Ddeddf Diogelu Data. Felly nid yw eich materion a busnes preifat gyda'r Cyngor fel unigolyn yn rhan o'r Cynllun Cyhoeddiadau hwn.

LLE MEDRIR CAEL MYNEDIAD I'R CYNLLUN

Bydd y cynllun hwn ar gael i bob dinesydd o'r gymuned. Medrir cael mynediad iddo drwy'r Rhyngrwyd ar wefan y Cyngor www.blaenau-gwent.gov.uk. Mae copïau caled o'r cynllun ar gael o'r Ganolfan Ddinesig, Glynebwy a'n holl Lyfrgelloedd. Mae copïau o'r cynllun hwn ar gael yn Gymraeg neu Saesneg (er fel arfer dim ond yn yr iaith y cawsant eu cyhoeddi gyntaf y bydd y cyhoeddiadau eu hunain ar gael - darperir ceisiadau am wybodaeth yn yr iaith a ddewisir cyn belled ag sy'n ymarferol). Medrir gwneud ymholiadau drwy'r post, wedi'u cyfeirio at:-

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent
Y Ganolfan Ddinesig
Glyn Ebwy
NP23 6XB

Ffôn: 01495 350555 E-bost: www.blaenau-gwent.gov.uk

Gall gwybodaeth hefyd fod ar gael yn y llyfrgelloedd dilynol:

Llyfrgell Glynebwy
21 Stryd Bethcar
Glynebwy NP23 6HS

Llyfrgell Cwm
Stryd Canning
Cwm, Glynebwy NP23 7RW

Llyfrgell Abertyleri
Tyle'r Orsaf
Abertyleri NP13 1UJ

Llyfrgell Llanhilledd
Sefydliad y Gweithwyr
Llanhilledd NP13 2JH

Llyfrgell Blaenau
Y Sefydliad
Blaenau NP13 1UJ

Llyfrgell Brynmawr
Sgwâr y Farchnad
Brynmawr NP23 4AJ

Llyfrgell Tredegar
Y Cylch
Tredegar NP22 3PS

Yn ychwanegol:

- Mae cronfa ddata wybodaeth helaeth ar wefan y Cyngor.
- Mae prif switsfwrdd y Fwrdeisdref Sirol yn galluogi cyswllt ffôn i bob adran o'r Awdurdod.
- Cyhoeddir A-Y o wasanaethau sy'n rhoi rhifau ffôn llinell uniongyrchol ar gyfer nifer fawr o wasanaethau penodol.
- Mae mynediad i'r anabl ar gael i brif adeiladau'r Cyngor lle mae angen i'r cyhoedd alw ar sail gyson.

SUT Y MEDRWCH GAEL GWYBODAETH DAN Y DDEDDF RHYDDID GWYBODAETH

Cyn belled ag sy'n rhesymol ac yn bosibl, bydd y Cyngor yn rhoi cyngor a chymorth i ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr gyda'u ceisiadau ar gyfer wybodaeth. Dylai aelodau o'r cyhoedd sydd angen cyngor ynghylch mynediad i wybodaeth gysylltu â'r Swyddog Rhyddid Gwybodaeth ar 01495 355080.

POLISI CODI TÂL

Ni fydd y Cyngor yn codi tâl am edrych ar yr wybodaeth o fewn y cynllun cyhoeddi hwn. Medrir codi tâl ar gyfraddau a benderfynir o bryd i'w gilydd gan y Cyngor am unrhyw lungopïau y gwneir cais amdanynt, postio a phacio neu gostau'n codi'n uniongyrchol fel canlyniad i weld gwybodaeth. Yn ychwanegol gall ffioedd fod yn daladwy yn unol â deddfwriaeth neu reoliadau eraill. Mae meini prawf penodol yng nghyswllt Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth (Ffioedd a Therfyn Priodol).

CYFYNGIADAU

Mae'r Cyngor wedi penodi ei Brif Swyddog Cyfreithiol yn Swyddog cyfrifol am y cynllun hwn ar ran y Cyngor a hefyd i fod yn gyfrifol am gynnal y cynllun ar sail dydd i ddyd. Cyfarwyddwr Adnoddau y Cyngor yw'r Rheolwr Diogelu Data ar gyfer y Cyngor a bydd yn ymwneud â materion yn cyfeirio at ddata personol. Mae Swyddog Diogelu Data'r Cyngor yn Swyddog o'r Isadran Gyfreithiol.

CWYN

Y Prif Swyddog Cyfreithiol sy'n delio gyda chwynion. Mae gan y Cyngor set o weithdrefnau cwynion a gall unrhyw gwynion am Ddiogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gyffredinol gael eu trin drwy gysylltu â'r Ganolfan Ddinesig yng Nglynebwy. Nid yw'r cyfle i gwyno i'r Cyngor drwy ei Brif Swyddog Cyfreithiol yn cyfyngu unrhyw hawl sydd gan bobl i gwyno i'r Comisiynydd Rhyddid Gwybodaeth (eto, un ai am Ryddid Gwybodaeth neu Ddiogelu Data) yn y cyfeiriad dilynol:-

Comisiynydd Gwybodaeth/Information Commissioner
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

Ffacs 01625 524510
DX: 20819 Wilmslow
Ffôn: 01625 545745
E-bost: data@dataprotection.gov.uk